



**Rhwydwaith
Maethu**

Fframwaith Gweithredu Siarter Gofalwyr Maeth Cymru

Gorffennaf 2017

Cynnwys

Fframwaith Gweithredu Siarter Y Gofalwyr Maeth – gweledigaeth	2
Rhagymadrodd	3
Ynglŷn â'r Rhwydwaith Maethu	4
Ein Gwaith yng Nghymru	4
Ynglŷn â Fframwaith Gweithredu Siarter Y Gofalwyr Maeth	7
Rhan un - Troi'r Siarter yn realiti	9
Rhan Dau - Monitro cynnydd Siarter y Gofalwyr Maeth	11
Gweithio mewn Partneriaeth	12
Gwybodaeth	13
Dysgu, datblygu a chefnogi	14
Cyfathrebu ac ymgynghori	16
Eglurder ynglŷn â phenderfyniadau	17
Cefnogaeth	18
Triniaeth deg	19
Parch i'r plentyn	20
Rhan Tri Partneriaid a chydweithio	21
Rhan Pedwar Cefnogaeth Genedlaethol	22
Cydnabyddiaethau	23
Manylion Cysylltu	24

Fframwaith Gweithredu Siarter Y Gofalwyr Maeth – gweledigaeth

Gwyddom fod gofal maeth da yn gwneud gwahaniaeth go iawn i fywydau plant a phobl ifanc. Mae gofalwyr maeth yn darparu sefydlogrwydd, diogelwch ac ymlyniad i blant, ac yn aml, eu profiad cadarnhaol cyntaf o fywyd teuluol. Fodd bynnag, nid yw'r gyfundrefn bob amser yn cynorthwyo gofalwyr maeth i wneud hyn. Golyga'r problemau hyn nad yw canlyniadau i'r cyfryw blant yn ddigon da oherwydd nad ydynt yn cael eu galluogi i gyrraedd eu potensial.

I helpu plant sydd wedi'u maethu i gyflawni'r gorau un y gallant, mae arnom angen cyfundrefn drwy'r hyn:

- Y caiff pob plentyn a pherson ifanc wedi'i faethu ddiogelwch a sefydlogrwydd yn eu cartref maeth, fe gânt eu helpu i wneud ac i gynnal perthnasoedd, fe gânt eu cefnogi i aros tan y bônt yn barod i adael, ac fe'u helpir i gyrraedd eu potensial.
- Y caiff pob gofalwr maeth ei barchu fel arbenigwr proffesiynol ar ofal plant; rhoddir yr holl wybodaeth iddynt y mae arnynt ei hangen i ofalu am bob plentyn yn iawn; bod yn llwyr gysylltiedig â llunio penderfyniadau; a chael eu grymuso i wneud penderfyniadau beunyddiol priodol yn ymwneud â'r plant yn eu gofal.
- Y caiff pob gofalwr maeth ei ddigolledu'n deg am y treuliau a gafwyd wrth ofalu am blentyn yn eu cartref, a'u talu am eu hamser, yn unol â'u sgiliau a'u profiad.

Mae'r Rhwydwaith Maethu wedi ymgyrchu ers amser maith dros gael gofalwyr maeth i gael eu hystyried fel aelodau cyflawn o'r tîm sy'n gweithio â'r plentyn. Bydd Siarter y Gofalwyr Maeth, y cytunir arni gan wasanaethau maethu a'u gofalwyr maeth, yn helpu i wneud hyn yn realiti.

Mae'r siarter yn cefnogi cyfrifoldebau rhieni corfforaethol awdurdodau lleol ac mae'n amlinellu fframwaith hawliau a disgwyliadau ar gyfer gofalwyr maeth. Mae'n amlinellu cyd-rolau a chydgyfrifoldebau, a 'berchnogir' gan ofalwyr maeth a'r gwasanaeth maethu, fel ei gilydd. Mae'r siarter yn ymdrin â materion megis goruchwyliaeth, cymryd rhan mewn cynllunio a llunio penderfyniadau, gwybodaeth a thaliadau.

Mae'r siarter yn ffordd bwysig ymlaen i wasanaethau maethu yng Nghymru, gan ei bod yn addewid ar gyfer cyflawni gwasanaeth sy'n eiddo i bawb sy'n gysylltiedig: y cyngor, y gwasanaethau maethu a gofalwyr maeth. Caiff ei llofnodi gan yr aelod Cabinet a chanddo gyfrifoldeb dros wasanaethau plant, a'r cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol.

Yn y modd hwn, fe grëir fframwaith a ddefnyddir i wella bywydau plant mewn gofal. Bydd y gwaith hwn yn galluogi gwasanaethau maethu i ddatblygu'u siarter leol eu hunain, fel bod gofalwyr maeth yn cael y gydnabyddiaeth y maent yn ei haeddu a'i hangen, i ddarparu'r gofal gorau posibl i blant.

Rhagymadrodd

Gwnaeth Y Rhwydwaith Maethu gynhyrchu Siarter Y Gofalwyr Maeth y tro cyntaf yn 2011, gan ymgynghori â'u haelodau. Yn 2015, fe gafodd y siarter ei diwygio a'i lansio gan y Gweinidog dros lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Mark Drakeford, AC, mewn derbyniad yn y Senedd a gynhaliwyd gan Y Rhwydwaith Maethu.

Mae'r fframwaith gweithredu hwn yn cofleidio'r siarter ac yn mynd â hi i'r lefel nesaf: trosi'r delfrydau i fod yn weithredoedd pendant y gellir eu cymryd gan ystod eang o bartneriaid i greu gwelliannau go iawn a mesuradwy mewn gofal maeth i bobl ledled y wlad. Mae'r Rhwydwaith Maethu'n bwriadu adeiladu ar hyn a chynhyrchu pecyn cymorth dwyieithog i gynorthwyo gweithredu fydd yn canolbwyntio ar rolau cynghorwyr, gofalwyr maeth a swyddogion llywodraeth leol.

Mae yna ystod eang o bartneriaid wedi cydweithio i greu fframwaith sy'n gwirioneddol weithio i fudiadau ar lawr gwlad. Mae'r fframwaith yn cynnwys syniadau ymarferol ar gyfer sut y gall pawb sy'n ymwneud â gofal maeth wneud y siarter hon yn realiti. Mae'r fframwaith yn canolbwyntio ar wella canlyniadau, ansawdd a gwerth am arian, a sicrhau bod pobl sy'n gysylltiedig â gwasanaethau gofal maeth yn cael eu cynnwys yn llawn - *dim penderfyniad amdanaf i, hebof i*. Efallai y gall rhai o'r awgrymiadau ymddangos yn syml, ond weithiau newidiadau syml sydd â'r potensial mwyaf i wella bywydau pobl.

Ynglŷn â'r Rhwydwaith Maethu

Y Rhwydwaith Maethu yw prif elusen faethu'r Deyrnas Unedig. Y ni yw'r rhwydwaith hanfodol ar gyfer maethu, gan ddod â phawb ynghyd sy'n gysylltiedig â bywydau plant sydd wedi'u maethu. Cefnogwn ofalwyr maeth i weddnewid bywydau plant, ac fe weithiwn â gwasanaethau maethu a'r sector ehangach i ddatblygu ac i rannu arferion gorau.

Gweithiwn i sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc sydd wedi'u maethu yn profi bywyd teuluol sefydlog, ac rydym yn angerddol dros y gwahaniaeth a wna gofal maeth. Hyrwyddwn faethu a cheisiwn greu newid hanfodol fel bod gofal maeth y gorau un y gall fod.

Ein gwaith yng Nghymru

Mae gan Y Rhwydwaith Maethu yng Nghymru hanes maith o ddarparu rhaglenni ac ymyriadau sydd wedi'u targedu sy'n cyfrannu at weddnewid bywydau cannoedd o blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal.

Mae Siarter Y Gofalwyr Maeth yn rhan o'n rhaglen Maethu Rhagoriaeth, ein rhaglen genedlaethol dair blynedd sydd â'r nod o wneud cyfraniad sylweddol at wella canlyniadau i blant sy'n derbyn gofal. Drwy'n rhaglen waith bwrpasol a chynhwysfawr, fe fyddwn yn cynorthwyo gofalwyr maeth drwy ddarparu amrywiaeth o hyfforddiant, cynghorion a chymorth drwy ddsbarthiadau meistr pynciol, ein llinell gynghori sef Llinell Faethu Cymru, a chynllun llysgenhadon cyntaf Cymru dros ofalwyr maeth. Bydd y rhaglen hefyd yn cynorthwyo gwasanaethau maethu i wella recriwtio a dal gafael ar ofalwyr maeth, gan hefyd weithredu Siarter Y Gofalwyr Maeth ledled Cymru.

Un o'n themâu allweddol eraill oedd hyrwyddo anghenion a chyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal. Rydym wedi gweithio'n agos â Phrifysgol Caerdydd (CASCADE) ac wedi lledaenu'r negeseuon pwysig a gynhwysir yn eu hadroddiad, *Deall Profiadau Addysgol a Safbwyntiau, Cyrhaeddiad, Cyflawniad a Dyheadau Plant sy'n Derbyn Gofal yng Nghymru*. Ar ben hynny, gyda chyllid gan Lywodraeth Cymru, rydym wedi cyhoeddi *Canllaw Gofalwyr Maeth i Addysg yng Nghymru* a dau gylchgrawn i ofalwyr maeth, *Gwneud Iddo Ddigwydd a Disgwyliadau Mwy*, sydd â'r nod o ysbrydoli a chefnogi gofalwyr maeth.

Y cyd-destun strategol ehangach yng Nghymru

Mae gwella canlyniadau i blant sy'n derbyn gofal yn parhau'n flaenoriaeth allweddol i Lywodraeth Cymru a'i phartneriaid ym mhob sector. Maent yn cydnabod y bydd y cyd-destun strategol, gweithredol ac ariannol i wasanaethau plant sy'n derbyn gofal drwodd a thro yn anodd iawn am y dyfodol rhagweladwy.

Y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant

Mae'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn sefydlu fframwaith cyfreithiol cyntaf Cymru ar gyfer gofal cymdeithasol yn y Gymru ôl-ddatganoledig. Caiff deddfwriaeth sy'n berthnasol i blant sy'n derbyn gofal ei hamlinellu yn y Ddeddf hon, yn Rhan 6, sy'n rhoi manylion y dyletswyddau sydd ar yr awdurdod lleol i letya ac i gefnogi plant yn eu gofal. Cyhoeddwyd cod ymarfer sy'n darparu rhagor o arweiniad ymarferol ar yr hyn a olyga'r dyletswyddau yn ymarferol.

Mae'r Ddeddf yn datgan, ac mae hyn yn bwysig i'r Rhwydwaith Maethu, pwysigrwydd rôl y trydydd sector, ac mae'n gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i gydnabod hyn. Mae hyn yn bwysig gan ei fod yn rhoi cyfreithlondeb i sefydliadau fel un y ni, i 'gyd-gynhyrchu' rhaglenni ac ymyriadau newydd mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, 2015

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, 2015 yn sefydlu saith o ddangosyddion llesiant cenedlaethol, y mae yna gyfrifoldeb ar fyrddau gwasanaethau cyhoeddus lleol i ymateb iddynt ac i fesur cynnydd tuag atynt. Wrth gyflawni holl raglenni'r Rhwydwaith Maethu, mae'n bwysig bod yn ymwybodol o'r dangosyddion llesiant a'r gwaith sydd ar y gweill ledled gwasanaethau cyhoeddus tuag at nodau penodol.

Y Fframwaith Maethu Cenedlaethol

Bydd y fframwaith yn canolbwyntio ar ddefnyddio adnoddau prin yn fwy effeithlon a chyflawni mwy o gysondeb o ran dull gweithredu a chanlyniadau. Mae yna hefyd gytuno cyffredinol bod model o ymagweddiad cenedlaethol, rhanbarthol a lleol yn briodol. Gwnaed y gwaith mewn dau gam. Sefydlodd Cam 1 yr achos dros newid, ac achos busnes dichonol, yr ymgynghorwyd yn gyffredinol arno ledled y sector. Sefydlwyd cyfres o argymhellion, ac mae Cam 2 ar hyn o bryd yn datblygu model ar gyfer gweithredu'r argymhellion yn ymarferol.

Gofal Cymdeithasol Cymru

O fis Ebrill, 2017, fe ddaeth y Cyngor Gofal yn Gofal Cymdeithasol Cymru, gyda chylch gwaith ehangach sy'n dod â datblygu a rheoleiddio gweithlu, gwella gwasanaeth ac ymchwil oll ynghyd. Un o'u swyddogaethau allweddol fydd datblygu'r gweithlu gofal cymdeithasol a blynyddoedd cynnar, drwy ehangu cymwysterau ac adnoddau blaenorol y gweithlu, a chytuno ar flaenoriaethau ar gyfer ariannu hyfforddiant gofal cymdeithasol.

Yr arwyddion cynnar yw bod yna gefnogaeth gref dros weld plant sy'n derbyn gofal a dementia yn flaenoriaethau nesaf ar gyfer gwella'r gwasanaeth. Gwnaed eu hymgyngoriad â'r sector gofal plant nodi rhai gofynion allweddol yn gysylltiedig â hyfforddiant, megis gwell mynediad i ofalwyr maeth, mwy o hyfforddiant ynghylch ymwybyddiaeth i weithwyr proffesiynol mewn sefyllfaoedd addysg ac iechyd, a mwy o gyfleoedd hyfforddi ar y cyd ledled y sectorau. Daeth parhauster, pontio, ymddygiad heriol ac ymyriadau sosialaidd, megis chwarae therapiwtig, i'r amlwg fel themâu allweddol. Mae'r negeseuon oddi wrth eu gweithgaredd ymgynghori yn gyson â'n rhai ninnau, ac maent yn atgyfnerthu'r weledigaeth ar gyfer gwasanaeth dysgu a datblygu Y Rhwydwaith Maethu fel canolfan ar gyfer hyfforddi pob gweithiwr proffesiynol ym maes gofal plant sy'n gysylltiedig â phlant sy'n derbyn gofal, â'r arbenigedd a'r cyrhaeddiad i hyrwyddo cydweithio effeithiol i gefnogi plant ag anghenion cynyddol gymhleth.

Adolygiad o Fframwaith Cymwysterau Gofal Cymdeithasol

Yn 2001, gweithiodd y Cyngor Gofal mewn partneriaeth â'r sector i ddatblygu'n Fframwaith Ymsefydlu Gofal Cymdeithasol cyntaf. Yn awr, fe gaiff hyn ei adolygu, ac mae Rhwydwaith Maethu Cymru wedi bod yn gysylltiedig â'r broses ymgynghori. Y nod yw bod y rhaglen ymsefydlu yn addas i bawb sy'n gweithio â phlant, yn cynnwys gofalwyr maeth. Gall hyn ddisodli'r Fframwaith Ymsefydlu anorfodol ar gyfer Gofalwyr Maeth a Gofalwyr Seibiant Byr yng Nghymru. Rydym yn dal i aros am ganlyniad yr adolygiad sy'n amcanu at gael ei gwblhau ym mis Medi, 2017.

Yn ychwanegol, mae Gofal Cymdeithasol Cymru wedi dechrau ar adolygiad o gymwysterau lechyd a Gofal Cymdeithasol, ac fe fydd yn cyflwyno llwybr newydd i fynd â lle'r Fframwaith Cymwysterau a Chredydau (QCF) o fis Medi 2018 (yn barod i'w addysgu o fis Medi 2019).

Bydd y Fframwaith Addysg a Dysgu Proffesiynol Parhaus (CPEL) hefyd i fod i gael ei adolygu erbyn 2020. Mae yna hefyd awgrymiadau wedi bod y bydd cofrestru gofalwyr maeth ar yr agenda yn y dyfodol agos.

Ynglŷn â Fframwaith Gweithredu Siarter Y Gofalwyr Maeth

Sefydlwyd Fframwaith Gweithredu Siarter Y Gofalwyr Maeth yn 2016, gyda'r amcan o gefnogi gweithredu Siarter y Gofalwyr Maeth Y Rhwydwaith Maethu, a lansiwyd yn 2015, mewn modd effeithiol a llwyddiannus. Cynlluniwyd a datblygwyd y fframwaith hwn gyda chyfranogiad rhanddeiliaid maethu, yn cynnwys cynghorwyr lleol, swyddogion llywodraeth leol, gweithwyr cymdeithasol a gofalwyr maeth.

Ym mis Mehefin, 2015, er mwyn gwella statws gofalwyr maeth, fe wnaeth Y Rhwydwaith Maethu, gyda chefnogaeth Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, lansio Siarter Y Gofalwyr Maeth yng Nghymru. Mae'r siarter yn amlinellu cyd-rolau a chydgyfrifoldebau, sydd ym 'mherchnogaeth' gofalwyr maeth a'r gwasanaeth maethu, fel ei gilydd. Yn y ffordd hon, creir fframwaith ar gyfer gwella bywydau plant mewn gofal. Mae'r siarter yn ymdrin â materion megis goruchwyllo, cymryd rhan mewn cynllunio a llunio penderfyniadau, gwybodaeth a thaliadau. Mae'r siarter yn ffordd bwysig ymlaen i wasanaethau maethu yng Nghymru, gan ei bod yn addewid ar gyfer darparu gwasanaethau a berchnogir gan bawb sy'n gysylltiedig: y cyngor, y gwasanaethau maethu a gofalwyr maeth. Fe'i llofnodir gan yr aelod o'r Cabinet a chanddo gyfrifoldeb am wasanaethau plant, a'r cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol.

Mae'r Rhwydwaith Maethu wedi ymgyrchu ers amser maith dros weld gofalwyr maeth yn cael eu hystyried fel aelodau llawn a chyfartal o'r tîm proffesiynol sy'n gweithio â phlentyn. Bydd siarter y cytunir arni gan wasanaethau maethu a'u gofalwyr maeth yn helpu i wneud hyn yn realiti. Mae gan y siarter hon rôl bwysig yn y gwaith o ddarparu pawb sy'n gysylltiedig â maethu gyda datganiad eglur ynglŷn â'r hyn y mae ar ofalwyr maeth ei angen a'i haeddu, yn ogystal â'r hyn y mae'n rhaid iddo wella.

Datblygu Fframwaith Gweithredu Siarter Y Gofalwyr Maeth

Dechreuwyd ar y Fframwaith Gweithredu Siarter y Gofalwyr Maeth hwn yn 2016, gyda'r amcan o gefnogi gweithredu Siarter y Gofalwyr Maeth 2015 yn effeithiol a llwyddiannus. Fe'i cynlluniwyd a'i datblygwyd gyda chynulleidfa darged o bawb sy'n gysylltiedig â gweithredu'r Siarter, fel, er enghraifft, cynghorwyr, swyddogion llywodraeth leol, gweithwyr cymdeithasol a gofalwyr maeth, ac yn y blaen.

Bydd Y Rhwydwaith Maethu yn :

- sefydlu gweithgor cenedlaethol Siarter Y Gofalwyr Maeth, a fframwaith ar gyfer gweithredu y cytunir arno erbyn diwedd y flwyddyn gyntaf.
- cynhyrchu pecyn cymorth dwyieithog ar gyfer swyddogion, aelodau etholedig a gofalwyr maeth, a datblygu, cyhoeddi a hyrwyddo fersiwn plant o'r siarter drwy Gymru i gyd erbyn diwedd yr ail flwyddyn.
- erbyn diwedd y drydedd flwyddyn, fe fydd pob un o'r 22 awdurdod lleol wedi'u cynorthwyo i weithredu'r siarter ac i wireddu'i photensial.

Sut i ddefnyddio'r fframwaith hwn

Caiff y fframwaith i weithredu a mesur Siarter Y Gofalwyr Maeth ei rannu'n bedair rhan:

- **Rhan Un** - sy'n amlinellu sut y bydd gweledigaeth y siarter yn ymddangos mewn realiti.
- **Rhan Dau** – sy'n amlinellu sut y gellir monitro ac adrodd ar gynnydd wrth weithredu'r siarter.
- **Rhan Tri** – sy'n amlinellu'r hyn y gall sefydliadau lleol – yn unigol ac yn gyfunol – ei wneud i weithredu'r siarter.
- **Rhan Pedwar** – sy'n amlinellu sut y caiff gweithredu lleol ei gynorthwyo gan Lywodraeth Cymru a chyrrff a sefydliadau cenedlaethol eraill.

Mae adrannau'r fframwaith yn fodiwlaidd ac nid ydynt yn 'gerrig sarn'. Gellir eu darllen gyda'i gilydd i ddatblygu llun o weithredu lleol, ac o'r hyn y bydd system faethu'r dyfodol yn ei olygu i ofal maeth, neu fe ellir eu darllen ar wahân, fel canllawiau annibynnol ynglŷn â'r hyn y gall pob un partner ei gyfrannu.

Rhan un

Troi'r Siarter yn realiti

Sut bydd gweledigaeth ac addewid y siarter yn ymddangos mewn realiti?

Mae Siarter Y Gofalwyr Maeth yn amlinellu'r rolau a'r ymrwymïadau ar gyfer y gwasanaeth maethu a'u gofalwyr maeth, fel ei gilydd.

Rôl y gwasanaeth maethu

Nod y gwasanaeth maethu yw darparu gofal maeth sefydlog a diguro i blant a gaiff eu gwerthfawrogi, eu cefnogi a'u hannog i dyfu ac i ddatblygu fel unigolion. I gyflawni'r nod hon, rydym yn recriwtio, yn hyfforddi ac yn cymeradwyo gofalwyr maeth ac yn darparu cymorth parhaus iddynt, er mwyn rhoi'r sgiliau a'r hyder iddynt y mae arnynt eu hangen i ddatblygu perthnasoedd ystyrlon â'r plant a'r bobl ifanc y maent yn gofalu amdanynt, a darparu cartrefi sefydlog a chariadus tra eu bod yn rhan o'r teulu maeth.

Rôl y gofalwr maeth

Mae gofalwyr maeth wrth graidd y gwasanaeth gofal maeth. Cawn ein hasesu, ein hyfforddi a'n cynorthwyo i ofalu am blant a phobl ifanc drwy ddatblygu perthnasoedd ystyrlon mewn amgylchedd teuluol, gan ddarparu sefydlogrwydd, gofal, cariad a chyfle iddynt dyfu a datblygu a chyrraedd eu potensial.

Caiff perthynas gofalwr maeth ag aelodau eraill o'r tîm o amgylch y plentyn ei seilio ar gydymddiriedaeth a pharch.

Bydd cyflawni hyn i bawb ac yn y ffordd fwyaf effeithiol yn golygu y:

Bydd gofalwyr maeth yn:

- gwybod beth yw eu rôl.
- deall y disgwyliadau sydd arnynt.
- cael eu trin â pharch ac yn derbyn cefnogaeth, cyngor a goruchwyliaeth gyson.
- cymryd rhan mewn dysgu a datblygu, defnyddio sgiliau a dulliau gweithredu sy'n cael effaith gadarnhaol ac yn galluogi'r plentyn i gyrraedd ei botensial neu ei photensial.
- darparu delfrydau ymddwyn cadarnhaol.
- trin y plentyn maeth fel y bydden' nhw'n trin eu plentyn eu hunain wrth eiriol dros bob agwedd o ddatblygiad y plentyn, yn cynnwys cyrhaeddiad addysgol, iechyd a lles corfforol ac emosiynol, a chydweithredu'n llawn fel rhan o dîm gyda gweithwyr proffesiynol allweddol eraill ym mywyd y plentyn.

Bydd y gwasanaeth maethu yn:

- gwrando ar a chynnwys gofalwyr maeth a'u plant maeth mewn llunio penderfyniadau a chynllunio a darparu gwybodaeth lawn i ofalwyr maeth a'u plant maeth am y naill a'r llall.
- cyflawni cronfa hyderus a hyfedr o ofalwyr cysylltiedig, sy'n fedrus ac yn alluog i ddiwallu anghenion plant sy'n agored i niwed hyd at y safon uchaf bosibl.
- meddu ar sylfaen gadarn i gyflawni'r gwell cysylltiadau gweithio â'r tîm a'u plant.
- Rhannu arferion gorau.

Bydd plant mewn gofal maeth yn:

- cael profiad cyson lle y diwallir eu holl anghenion.
- profi bywyd teuluol mor gyflawn â phosibl fel rhan o deulu maeth cariadus gyda gofalwyr a all wneud penderfyniadau beunyddiol fel y byddent ar gyfer eu plentyn eu hunain, a heb y plentyn yn teimlo'i fod yn 'amlwg' fel plentyn sy'n derbyn gofal.
- meddu ar y gallu i gyflawni'r canlyniadau unigol gorau posibl, gyda gwell hunan-barch a dyfodol cadarnhaol o'u blaen.
- bod yn ganolog yn y broses o lunio penderfyniadau.
- bod yn gallu datblygu'u hunaniaethau a'u dyheadau'u hunain, gwireddu'u potensial a manteisio ar yr holl gyfleoedd i hyrwyddo'u doniau a'u sgiliau.
- bod pobl yn gwrando arnynt.

Rhan dau

Monitro cynnydd Siarter Y Gofalwyr Maeth

Sut y gellir monitro ac adrodd ar gynnydd wrth weithredu'r Siarter?

Bydd monitro ac adrodd ar gynnydd wrth weithredu'r siarter – gwybod p'un a ydym yn gwneud gwahaniaeth ai peidio – yn hanfodol nid yn unig o ran dal gwasanaethau a phartneriaid i gyfrif, ond hefyd i dywys ymdrechion a gweithgareddau'r dyfodol.

Bydd y pecynnau cymorth fydd yn cael eu datblygu yn ystod 2017 yn darparu rhagor o arweiniad a hunan-asesu ac yn disgrifio rhagor ar sut i ddangos tystiolaeth o'ch cynnydd yn erbyn y fframwaith a'r siarter.

Gweithio mewn partneriaeth

<p>Gofalwyr maeth</p> <p>Byddwn yn dangos safon uchel o ofal ac ymddygiad.</p> <p>Byddwn yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Dangos ein harbenigedd a defnyddio'n sgiliau hyd eithaf ein gallu. • Darparu profiad cadarnhaol i blant o fywyd teuluol. • Mynychu cyfarfodydd ynglŷn â'r plant a'r bobl ifanc y gofalwn amdanynt. • Gweithio â'r asiantaethau sy'n gysylltiedig â'r plentyn, megis ysgolion, sefydliadau iechyd a sefydliadau crefyddol. • Dangos parodrwydd i weithio â rhieni biolegol, teulu ehangach a phobl sy'n arwyddocaol ym mywyd y plentyn. • Bodloni'r safonau a amlinellir yn y rheoliadau a'r canllawiau maethu a chadw at bolisiau a gweithdrefnau adrannol. • Parchu cyfrinachedd. 	<p>Gwasanaethau maethu</p> <p>Cydnabyddwn fod gan ofalwyr maeth sgiliau ac arbenigedd a'u bod yn gwneud y gwahaniaeth mwyaf i fywydau beunyddiol plant mewn gofal.</p> <p>Byddwn yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gwerthfawrogi'ch sgiliau a'ch arbenigedd yn gydradd â'r rheiny sydd gan broffesiynau eraill. • Cydnabod mai y chi yw'r bobl sy'n byw â phlant bob diwrnod ac yn eu hadnabod orau. • Eich cynnwys chi ym mhob cyfarfod sy'n effeithio arnoch chi a'r plant y gofalwch amdanynt. • Sicrhau y bydd ein gwasanaeth maethu yn cyrraedd y safonau a amlinellir mewn rheoliadau a chanllawiau maethu. • Eich trin heb gamwahaniaethu a'ch parchu fel cydweithiwr. • Parchu cyfrinachedd. 	<p>Golyga hyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Bydd yna barch o'r naill ochr a'r llall rhwng y gofalwr maeth a'r gwasanaethau maethu. • Bydd pob rhanddeiliad yn cael mynychu pob cyfarfod. • Bydd cyfathrebu rheolaidd ac eglur yn digwydd rhwng yr holl randdeiliaid ym mywyd y plentyn. • Bydd gan ofalwyr maeth fwy o ddealltwriaeth o anghenion unigol y plentyn. 	<p>Byddwn yn gwybod hyn oherwydd:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Bydd y berthynas yn gryf rhwng y gwasanaethau maethu a gofalwyr maeth. • Lleiheir cwynion. • Mynychir cyfarfodydd yn rheolaidd heb i apwyntiadau gael eu colli. • Bydd y berthynas rhwng gofalwyr maeth, rhieni biolegol, y teulu ehangach a phobl sy'n arwyddocaol ym mywyd y plentyn yn gryf ac yn iach. • Bydd gofalwyr maeth yn teimlo'u bod yn cael eu trin â thegwch a pharch.
---	---	--	---

Gwybodaeth

<p>Gofalwyr maeth</p> <p>Credwn mai deialog agored a didwyll yw'r allwedd i berthynas dda, ac fe fyddwn yn anelu at fagu perthynas ystyrion a chydweithredol â'n gweithiwr cymdeithasol goruchwyliol.</p> <p>Byddwn yn:</p> <ul style="list-style-type: none">• Hysbysu'n gweithiwr cymdeithasol goruchwyliol am newidiadau ar ein haelwyd.• Hysbysu'n gweithiwr cymdeithasol goruchwyliol am unrhyw anawsterau sy'n codi inni.	<p>Gwasanaethau maethu</p> <p>Gwyddom fod gwybodaeth yn hanfodol er mwyn i ofalwyr maeth ddarparu gofal sy'n diwallu angen y plentyn.</p> <p>Byddwn yn:</p> <ul style="list-style-type: none">• Rhoi'r holl wybodaeth ichi y mae arnoch ei hangen er mwyn gofalu'n ddiogel am y plentyn.• Darparu'r wybodaeth hon yn ysgrifenedig cyn lleoli, neu cyn gynted â phosibl o ran lleoliadau brys.• Sicrhau bod yna gynllun lleoli wedi'i baratoi wrth drafod â chi ac y cytunwyd arno â chi cyn lleoli, neu cyn gynted â phosibl o ran lleoliadau brys.• Darparu gwybodaeth ichi am yr holl faterion ariannol, yn cynnwys lwfansau treth a hawliau ychwanegol.• Darparu manylion llawn ichi am yr holl bolisiau a gweithdrefnau adrannol perthnasol.	<p>Golyga hyn y:</p> <ul style="list-style-type: none">• Bydd yna gyfathrebu rheolaidd ac eglur rhwng gofalwyr a'r gwasanaethau maethu.• Caiff gofalwyr maeth eu hysbysu'n llawn am eu rôl a'u cyfrifoldebau.• Bydd gwybodaeth ar gael yn rhwydd i ofalwyr maeth am bob agwedd o ofal maeth a'r gwasanaethau sydd ar gael.• Bydd gwasanaethau maethu'n cadw'n gyfoes â datblygiadau ymchwil ac yn gweithredu awgrymiadau ar gyfer arferion da a gwell ansawdd gwasanaeth, wedi'i seilio ar ymchwil lleol a chenedlaethol, ac yn ymgysylltu â phartneriaid yn y trydydd sector megis Y Rhwydwaith Maethu.	<p>Byddwn yn gwybod hyn oherwydd:</p> <ul style="list-style-type: none">• Bydd yna berthynas weithio gadarnhaol rhwng gofalwyr maeth a gweithwyr cymdeithasol.• Bydd gofalwyr maeth yn eglur ac yn hyderus ynglŷn â'u rôl.• Bydd gofalwyr maeth yn eglur ynglŷn â'r hyn a ddisgwyllir ganddynt.• Bydd gofalwyr maeth yn hyderus, yn hyfedr ac yn cymryd rhan.• Bydd gofalwyr maeth yn teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi a byddant yn gysylltiedig â chynlluniau ynglŷn â lleoliadau.• Bydd plant yn hyderus eu bod yn gallu cael at gymorth a chynghor gan ofalwyr maeth a'u gweithwyr cymdeithasol eu hunain.
--	--	--	--

Dysgu, datblygu a chefnogi

<p>Gofalwyr maeth</p> <p>Mae'n rhaid ein galluogi i gael at gyfleoedd dysgu a datblygu drwy gydol ein gyrfa faethu. Bydd hyn yn sicrhau bod gennym y sgiliau a'r wybodaeth y mae arnom eu hangen, ac yn ein caniatáu i ddatblygu'n harferion fel y gallwn helpu i weddnewid bywydau'r plant a faethwn.</p> <p>Byddwn yn:</p> <ul style="list-style-type: none">• Bodlon ac yn alluog i ddatblygu'n sgiliau drwy gydol ein gyrfa faethu.• Mynychu hyfforddiant perthnasol.• Derbyn cyfleoedd a gynigir inni.• Gadael ichi wybod os ydym yn methu â mynychu.• Mynychu a chyfrannu at grwpiau cymorth.	<p>Gwasanaethau maethu</p> <p>Credwn fod yn rhaid galluogi gofalwyr maeth i gael at gyfleoedd dysgu a datblygu drwy gydol eu gyrfa faethu. Bydd hyn yn sicrhau bod ganddynt y sgiliau a'r wybodaeth y mae arnynt eu hangen, ac yn caniatáu iddynt ddatblygu'u hymarfer fel y gallant helpu i weddnewid bywydau'r plant y maent yn eu maethu.</p> <p>Byddwn yn:</p> <ul style="list-style-type: none">• Darparu hyfforddiant priodol a pherthnasol i chi a'ch teulu gan hyfforddwyr sy'n deall y gorchwyl maethu.• Eich galluogi i ddatblygu perthynas ystyrion â'r plant yn eich gofal a chyda chyd-aelodau'r tîm o amgylch y plentyn.	<p>Golyga hyn y:</p> <ul style="list-style-type: none">• Bydd rhaglen hyfforddi gynhwysfawr a chyfleoedd dysgu ar gael i ddatblygu gwybodaeth a sgiliau gofalwyr maeth.• Bydd cyfleoedd dysgu a datblygu yn berthnasol ac yn ymatebol i anghenion yr unigolion sy'n mynychu.• Cynigir amrywiaeth o gyfleoedd dysgu, nid dim ond hyfforddiant traddodiadol wedi'i leoli mewn ystafell ddosbarth.• Darperir hyfforddiant hyd at safon uchel iawn gan ddefnyddio gofalwyr maeth a gweithwyr cymdeithasol cyfredol a phrofiadol i hwyluso hyfforddiant, gyda chymorth hyfforddwr medrus.	<p>Byddwn yn gwybod hyn oherwydd:</p> <ul style="list-style-type: none">• Bydd gan y gwasanaeth maethu gronfa hyderus a hyfedr o ofalwyr brwd, sy'n fedrus ac yn alluog i ddiwallu anghenion y plentyn yn eu gofal.• Annog presenoldeb mewn cyfleoedd dysgu a datblygu lle y ceir ond ychydig neu neb yn cymryd rhan.• A chanddynt sgiliau wedi'u datblygu, fe fydd gofalwyr maeth yn teimlo wedi'i grymuso a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi.
---	---	--	--

- Darparu cyfleoedd datblygu eraill i chi sy'n gwneud y defnydd gorau o'ch sgiliau a'ch arbenigedd, megis mentora neu ddarparu hyfforddiant neu gymorth.

- Mae yna staff uchel eu cymwysterau ac wedi'u cymell yn dda ar gael sydd wedi'u hymrwymo i recriwtio, hyfforddi, asesu a chefnogi gofalwyr maeth, ac maent yn canolbwyntio'n llwyr ar anghenion plant a phobl ifanc y gofalir amdanynt mewn lleoliadau maeth.

Cyfathrebu a Chysylltu

<p>Gofalwyr Maeth</p> <p>Credwn mai deialog agored a didwyll yw'r allwedd i berthynas dda.</p> <p>Byddwn yn:</p> <ul style="list-style-type: none">• Ymateb i ymgynghoriadau a thrafodaeth leol er mwyn hysbysu datblygiad y gwasanaeth.• Cyfarfod â chynghorwyr, rheolwyr gwasanaethau ac eraill er mwyn hyrwyddo deialog a chysylltiadau gweithio da.• Cynorthwyo'r plant yn ein gofal i wneud yr un fath.	<p>Gwasanaethau Maethu</p> <p>Credwn mai deialog agored a didwyll yw'r allwedd i berthynas dda.</p> <p>Byddwn yn:</p> <ul style="list-style-type: none">• Hwyluso cyfathrebu rheolaidd rhyngoch chi, cynghorwyr a'r cyfarwyddwr gwasanaethau plant.• Sicrhau ein bod yn ymgynghori â chi mewn ffordd ystyrlon ar faterion sy'n effeithio arnoch chi.• Rhoi adborth amserol ichi oddi wrth ymgynghoriadau.	<p>Golyga hyn y:</p> <ul style="list-style-type: none">• Bydd cyfathrebu'n eglur ac yn gryno, mewn iaith y mae pob rhanddeiliad yn gallu ei deall.• Rhoddir prosesau effeithiol a hygyrch ar waith i ganiatáu i bob rhanddeiliad gymryd rhan mewn deialog.	<p>Byddwn yn gwybod hyn oherwydd:</p> <ul style="list-style-type: none">• Bydd rhanddeiliaid yn deall yr hyn a ofynnir iddynt yn ymwneud ag ymgynghoriadau ac ymgysylltu.• Bydd ymatebion i ymgysylltu ac ymgynghori yn cynyddu.• Bydd gofalwyr maeth yn teimlo'n aelodau gwerthfawr o'r tîm.• Bydd gwasanaethau maethu yn gwerthfawrogi cyfraniadau a wneir gan ofalwyr maeth a phlant.• Mae gofalwyr maeth yn hyderus wrth wneud awgrymiadau ynglŷn â meysydd ar gyfer gwella neu lle mae angen newidiadau i wella'r gwasanaeth maethu.
--	---	--	--

Eglurder ynglŷn â phenderfyniadau

<p>Gwasanaethau maethu</p> <p>Cydnabyddwn fod yn rhaid i ofalwyr maeth, os yw plant i fyw bywyd teuluol llawn, fod yn gallu gwneud penderfyniadau ynglŷn â'r plant y maent yn eu maethu.</p> <p>Byddwn yn:</p> <ul style="list-style-type: none">• Sicrhau, pa bryd bynnag y bo'n bosibl, eich bod yn gallu gwneud penderfyniadau beunyddiol sy'n golygu nad yw'ch plentyn sydd wedi'i faethu yn cael ei drin yn wahanol i'w gyfoedion, a'i fod yn gallu teimlo'n rhan o'ch teulu.• Darparu eglurder yn y dechrau ynglŷn ag unrhyw benderfyniad na allwch ei wneud fel bod pawb yn deall pwy sy'n gyfrifol ac am beth.	<p>Golyga hyn y:</p> <ul style="list-style-type: none">• Bydd gwybodaeth yn cael ei rhoi ar gael am brosesau llunio penderfyniadau.• Bydd gwasanaethau maethu yn eglur wrth gyfathrebu â gofalwyr maeth am eu rôl yn gwneud penderfyniadau beunyddiol ynglŷn â'r plentyn.	<p>Byddwn yn gwybod hyn oherwydd:</p> <ul style="list-style-type: none">• Mae gofalwyr maeth yn eglur yn eu rolau a'u cyfrifoldebau ynglŷn â phwy sy'n gwneud penderfyniadau am y plentyn a pha bryd.• Mae gofalwyr maeth yn teimlo'u bod wedi'u grymuso gan eu bod yn gallu gwneud penderfyniadau beunyddiol.• Mae gofalwyr maeth yn eglur am unrhyw benderfyniadau na allant eu gwneud ar eu pen eu hunain.• Bydd plant yn hyderus na chânt eu trin yn wahanol i'w cyfoedion ac fe fyddant yn teimlo'n rhan o'r teulu.
---	---	--

Cefnogaeth

Gwasanaethau Maethu

Cydnabyddwn fod maethu yn orchwyl sy'n ynysu ac yn heriol a bod cymorth priodol ac amserol yn gwneud yr holl wahaniaeth i'r teulu sy'n maethu ac i'r plentyn yn eich gofal.

Byddwn yn:

- Ymateb yn gadarnhaol i geisiadau am gymorth ychwanegol.
- Darparu goruchwyliaeth fisol ichi a chysylltiad wythnosol ar y ffôn.
- Rhoi adborth didwyll ac agored ichi.
- Darparu mynediad at gymorth 24 awr ichi gan bobl ag arbenigedd maethu.
- Talu lwfansau, treuliau a ffioedd ichi yn brydlon.
- Talu ffioedd sy'n adlewyrchu'r gorchwyl.
- Sicrhau bod yna grŵp lleol a gydnabyddir gan y gwasanaeth maethu lle y gallwch chi a'ch teulu ganfod cymorth a rhannu profiadau â theuluoedd maethu eraill.

Golyga hyn y:

- Bydd gofalwyr maeth yn cael eu trin yn ôl eu hanghenion unigol ac anghenion y plentyn.
- Bydd cyfathrebu'n broses ddwyffordd.
- Darperir adborth yn sensitif ac yn brydlon.
- Mae gwybodaeth yn hygyrch bob amser.

Byddwn yn gwybod hyn oherwydd:

- Bydd gan ofalwyr maeth fynediad at gymorth gan ofalwyr maeth cymwysedig a phrofiadol y tu allan i oriau swyddfa.
- Gall gofalwyr maeth gael at gyngor a chymorth gan weithwyr cymdeithasol cymwysedig.
- Bydd niferoedd ymholiadau a chysylltiadau'n cynyddu.
- Bydd perthnasoedd effeithiol a chadarnhaol yn cael eu datblygu rhwng gofalwyr maeth a theuluoedd.
- Derbynnir llai o gwynion am daliadau lwfansau, treuliau a ffioedd hwyr.
- Mae gofalwyr maeth yn teimlo bod y tâl am orchwylion yn briodol ac yn gymesur.

Triniaeth deg

Gwasanaethau Maethu

Cydnabyddwn fod gan ofalwyr maeth hawl i gael eu trin yn deg, ni waeth beth fo'r amgylchiadau.

Byddwn yn:

- Ymgynghori â chi cyn newid telerau ac amodau.
- Sicrhau didwyllledd yn ein holl benderfyniadau a chyfathrebiadau â chi.
- Sicrhau y cewch eich trin â pharch, y cewch eich hysbysu'n rheolaidd ac y darperir cymorth emosiynol ichi petaech chi'n destun honiad.
- Darparu fframwaith ar gyfer ymdrin â honiadau a chadw at ein graddfeydd amser y cytunwyd arnynt.
- Sicrhau eich bod yn gwybod y trefniadau ar gyfer talu ffioedd a lwfansau os cwyd amser nad ydych yn gallu maethu tra eich bod yn destun honiad.

Golyga hyn y:

- Bydd gwasanaethau maethu'n ymdrin â chwynion neu honiadau yn sensitif.
- Darperir cymorth priodol i ofalwyr maeth.
- Gwneir ymatebion i gwynion neu honiadau yn deg ac o fewn graddfa amser y cytunwyd arni.
- Bydd gofalwyr maeth a gwasanaethau maethu yn arddel diwylliant agored a didwyll wrth ddatrys problemau. Lle mae unrhyw fater yn debygol o arwain at wahaniaeth, fe rydd y partïon fanylion byrion i'r naill a'r llall cyn gynted â phosibl, a chyfarfod cyn gynted â phosibl, a chyfeirio trafodaethau didwyll i geisio datrys y mater.

Byddwn yn gwybod hyn oherwydd:

- Mae gofalwyr maeth yn deall y cânt eu parchu a'u cefnogi.
- Mae gofalwyr maeth yn ymwybodol o unrhyw newidiadau i delerau ac amodau o flaen llaw.
- Bydd gofalwyr maeth yn cadw at raddfeydd amser y cytunwyd arnynt.

Parch i'r plentyn

Gofalwyr Maeth	Gwasanaethau Maethu	Golyga hyn y:	Byddwn yn gwybod hyn oherwydd:
<p>Dylid parchu pob plentyn a pherson ifanc fel unigolyn a'i gefnogi i ddiwallu'i anghenion ac i gyflawni'i ddyheadau a'i botensial.</p> <p>Byddwn yn:</p> <ul style="list-style-type: none">• Datblygu perthynas ystyrion â'r plentyn: deall ei anghenion, cefnogi'i dwf, a dod yn eiriolwr ac yn hyrwyddwr iddo.• Parchu a hyrwyddo treftadaeth grefyddol, ieithyddol a diwylliannol plentyn.• Rhoi'r un lefel o amddiffyniad a gofal i blentyn fel ag y byddem i'n plentyn ein hunain, yn unol â'r safonau gofynnol cenedlaethol.• Sicrhau bod gan y plentyn yr hawl i wneud penderfyniadau ynglŷn â'u bywydau'u hunain, fel sy'n briodol i'w hoedran a'u dealltwriaeth.	<ul style="list-style-type: none">• Bydd gwasanaethau maethu yn cydnabod efallai mai gofalwyr maeth sy'n adnabod y plentyn orau.• Bydd gwasanaethau maethu yn gwrando ar y plentyn neu'r person ifanc. Bydd gwasanaethau maethu yn hysbysu'r plentyn yn rheolaidd am benderfyniadau sy'n effeithio arno.• Bydd gwasanaethau maethu yn galluogi'r plentyn i brofi 'bywyd teuluol normal' drwy alluogi gofalwyr maeth i wneud penderfyniadau.	<ul style="list-style-type: none">• Bydd gofalwyr maeth yn gwrando ar eu plentyn maeth a'i alluogi i gael ei glywed.• Mae gofalwyr maeth yn deall anghenion unigol y plentyn, yn enwedig y rheiny mewn perthynas â Deddf Cydraddoldeb 2010.	<ul style="list-style-type: none">• Bydd plant yn hyderus bod eu hanghenion yn cael eu deall a'u cynorthwyo.• Bydd plant yn teimlo'n ddiogel ac yn sicr yn eu lleoliad/teulu.• Mae nifer uwch o blant yn cymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau ynglŷn â'u bywydau eu hunain.• Mae plant yn cyflawni'u potensial llawn.• Bydd plant yn byw heb erledigaeth, camwahaniaethu nac aflonyddwch.

Rhan tri

Partneriaid a chydweithio

Beth a all mudiadau lleol – yn unigol ac yn gyfunol, fel ei gilydd – ei wneud i weithredu'r siarter?

I wneud gwir wahaniaeth mewn maethu, fe fydd ar ystod eang o bartneriaid angen cydweithio.

Beth a all partneriaid ei wneud?

- Rhoi cyhoeddusrwydd i'r siarter yn amlwg ar y wefan a'i defnyddio'n briodol mewn cyfathrebiadau eraill ynglŷn â gofal maeth.
- Sicrhau bod y cynghorydd arweiniol ar gyfer gwasanaethau plant yn llofnodi'r siarter.
- Penodi aelod etholedig fel 'Hyrwyddwr Siarter Y Gofalwyr Maeth'. Gallai'r rôl hon gynnwys codi ymwybyddiaeth o ofal maeth, yn cynnwys, er enghraifft, rôl gwasanaethau maethu a gofalwyr maeth.
- Cydnabod rôl gwasanaethau plant a'r sefydliad ehangach i hyrwyddo a hybu Siarter Y Gofalwyr Maeth.
- Mae ar bob rhanddeiliad angen dealltwriaeth o'r siarter a pham mae wedi'i chyflwyno fel ei bod yn dod yn rhan o'r diwylliant a'r 'ffordd rydym yn gwneud pethau yn fan hyn'.
- Mae ar bartneriaid angen cydnabod eu rôl a'u cyfrifoldebau unigol wrth weithredu'r siarter a deall eu hatebolrwydd.
- Dylid darparu hyfforddiant ar y cyd gyda phob rhanddeiliad i ddarparu dealltwriaeth fwy eglur o rolau a chyfrifoldebau'r naill a'r llall ac i greu parch at ei gilydd.
- Mae angen i ymgysylltu ac ymgynghori hygyrch, eglur ac effeithiol ddigwydd gyda'r holl bartneriaid sy'n gysylltiedig.
- Mae angen i'r siarter gael ei chefnogi a'i hyrwyddo gan Asiantaeth Gwella'r Gwasanaethau Cymdeithasol (SSIA), Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA), Gofal Cymdeithasol Cymru (SCW), Comisiynwyr, a Grŵp Polisi'r Gwasanaethau Cymdeithasol (SSPG).
- Mae'n rhaid i unrhyw asiantaeth annibynnol a gomisiynwyd gael ei gwneud yn ymwybodol o, a chadw at Siarter Y Gofalwyr Maeth.
- Diweddarau gofalwyr maeth yn rheolaidd dros amser i fesur cynnydd y siarter.

Rhan pedwar

Cefnogaeth Genedlaethol

Sut y gall gweithredu lleol gael ei gynorthwyo gan y Llywodraeth a sefydliadau cenedlaethol eraill?

- Mae angen i Siarter Y Gofalwyr Maeth gael ei thanategu gan Fframwaith Maethu Cenedlaethol Llywodraeth Cymru.
- Gall sefydliadau cenedlaethol lofnodi a chefnogi'r siarter – bydd hyn yn darparu hyrwyddiad ar lefel genedlaethol a lleol ac yn darparu cysondeb.
- Dylid codi ymwybyddiaeth o'r siarter ar lefelau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol.
- Bydd gweithredu'r siarter yn gweithio'n ddichonol tuag at rai o'r nodau fel a amlinellwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.
- Gellir safoni dysg a datblygiad gofalwyr maeth i greu cymhwyster dichonol ar gyfer gofalwyr maeth.
- Gall gofalwyr maeth ac aelodau'r cyhoedd a chanddynt ddiddordeb lobïo cynghorwyr eu hawdurdod lleol i weithredu'r siarter yn lleol.
- Bydd Y Rhwydwaith Maethu yn parhau i hyrwyddo'r siarter; er enghraifft, drwy'u gwefan, fel rhan o'u rhaglen Maethu Rhagoriaeth, a thrwy weithio mewn partneriaeth â'u haelodau a'u rhanddeiliaid ledled Cymru.

Cydnabyddiaethau

Awduron

Anna Morgan, cyfarwyddwr, Red Shiny Apple

Maria Boffey, pennaeth gweithrediadau, Rhwydwaith Maethu Cymru

Mae'r adroddiad hwn wedi cynnwys llysgenhadon gofalwyr maeth a grŵp cynghori gofalwyr maeth Y Rhwydwaith Maethu. Maent ill dau wedi bod yn hael gyda'u hamser a'u harbenigedd. Hoffem ymestyn ein diolchiadau iddynt, gan fod yr adroddiad hwn wedi'i seilio ar, a'i hysbysu gan eu profiadau beunyddiol o fod yn ofalwyr maeth.

Hoffem hefyd ddiolch i:

Y timau maethu o Gyngor Dinas a Sir Abertawe, Cyngor Sir Powys a Chyngor Sir Caerdydd
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA)

AFA Cymru

Jessica Matthews, rheolwr rhaglenni, Rhwydwaith Maethu Cymru

Charlotte Wooders, swyddog rhaglen Maethu Rhagoriaeth, Rhwydwaith Maethu Cymru.

Y Rhwydwaith Maethu

Y Rhwydwaith Maethu yw prif elusen faethu y Deyrnas Unedig. Y ni yw'r rhwydwaith hanfodol ar gyfer maethu, gan ddod â phawb ynghyd sy'n gysylltiedig â bywydau plant sydd wedi'u maethu. Cefnogwn ofalwyr maeth i weddnewid bywydau plant a gweithiwn â gwasanaethau maethu a chyda'r sector ehangach i ddatblygu ac i rannu arferion da.

Gweithiwn i sicrhau fod pob plentyn a pherson ifanc sydd wedi'u maethu yn profi bywyd teuluol sefydlog, ac rydym yn angerddol dros y gwahaniaeth a wna gofal maeth. Hyrwyddwn faethu a cheisiwn greu newid hanfodol fel bod gofal maeth y gorau un y gall fod.

I ganfod mwy o wybodaeth am y siarter hon ac am ein gwaith ehangach yng Nghymru, cysylltwch, os gwelwch yn dda, â:

Maria Boffey

Pennaeth Gweithrediadau

Rhwydwaith Maethu Cymru

1, Pentir Caspian, Stryd Pierhead,

Bae Caerdydd CF10 4DQ.

Ffôn: 029 2044 0940

E-bost: maria.boffey@fostering.net



/thefosteringnetwork



@fosteringnet

Cofrestrir Y Rhwydwaith Maethu yng Nghymru a Lloegr fel cwmni cyfyngedig, rhif 1507277.

Swyddfa gofrestrdig: 87, Blackfriars Road, Llundain SE1 8HA. Elusen gofrestrdig, rhif 280852 yng Nghymru a Lloegr a rhif SCO39338 yn yr Alban.

© Y Rhwydwaith Maethu 2016

Cedwir pob hawl. Ni chaniateir i unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn gael ei atgynhyrchu, ei storio na'i roi mewn system adalw na'i drosglwyddo, mewn unrhyw ffurf na thrwy unrhyw fodd (boed yn electronig, yn fecanyddol, drwy lungopio, recordio neu fel arall), heb ganiatâd y cyhoeddwr o flaen llaw.